

Mynd ati i fod yn greadigol

<p>Amcanion dysgu: Erbyn diwedd y wers, dyma beth ddylai'r disgyblion fod wedi'i ddysgu:</p> <ul style="list-style-type: none">• Sut i adnabod nodweddion gwahanol ar y safle a'u defnyddio yn eu celfyddydwaith• Sut i adnabod arddulliau nodweddiadol yng ngwaith artistiaid enwog• Sut i ymgorffori'r nodweddion hyn yn eu gwaith eu hunain	
<p>Geiriau allweddol: siâp, ffurf, lliw, gofod, gweadedd a phatrwm, safbwyntiau, persbectif, blaendir a chefnidir</p>	
<p>Cyflwyniad:</p> <p>Dylai'r wers hon ddechrau gyda sesiwn adolygu fer ar yr ymweliad â'r safle. Gallai'r drafodaeth gynnwys yr hyn roedd y disgyblion wedi'i hoffi a'i gasáu fwyaf am y safle, a beth oedd fwyaf diddorol yn eu barn nhw. Gall yr athro dywys y drafodaeth er mwyn helpu'r disgyblion i benderfynu sut yr hoffon nhw gyflwyno'u celfyddydwaith ar sail eu hymweliad â'r chwareli.</p>	<p>Amseru (Yn seiliedig ar 60 mun)</p> <p>5-10 mun</p>
<p>Prif ran:</p> <p>Gall y disgyblion yn awr ddatblygu'r sylwadau, y syniadau a'r teimladau yn gynlluniau, a pharhau i lunio delweddau neu arteffactau. Dylai'r disgyblion feddwl am liw, patrwm, gweadedd, tŷn a siâp, a sut y gellir cyfuno'r rhain a'u trefnu i ddibenion gwahanol.</p> <p>Yn dibynnu ar yr amser sydd wedi'i neilltuo ar gyfer y project hwn, a pha mor uchelgeisiol fydd y disgyblion (a'r athrawon) gyda'u gwaith creadigol, gellid neilltuo'r wers hon yn gyfan gwbl i'r broses gynllunio, a chynnal gwersi ychwanegol ar gyfer dylunio a chreu.</p> <p>Gallai'r disgyblion edrych ar waith artistiaid eraill i ganfod beth ydy eu harddulliau artistig a sut y gallen nhw eu hymgorffori yn eu gwaith. (Mae PowerPoint gydag enghreifftiau o dirweddau wedi'i gynnwys yn yr uned hon.)</p> <p>Yn ystod y broses gynllunio, dylai'r disgyblion hefyd gymharu syniadau â chyfoedion a dweud beth maen nhw'n ei feddwl ac yn ei deimlo amdany nhw. Gall y disgyblion addasu a datblygu eu syniadau eu hunain er mwyn adlewyrchu gwerthusiad cyfoedion. Gallai syniadau gwahanol ar gyfer y cynnyrch terfynol amrywio o fod yn boster neu <i>collage</i> cerdyn post i fod yn fodel o odyne neu chwarel (yn ôl faint o amser sydd ar gael).</p>	<p>45 mun</p>

<p>Sesiwn lawn: Erbyn diwedd y wers hon, dylai'r disgyblion fod â syniad clir o'r hyn maen nhw am ei greu. Os bydd rhaid iddyn nhw orffen eu gwaith yn y wers nesaf, dylen nhw fod wedi dechrau'r gwaith eisoes.</p> <p>Yn y wers nesaf, bydd y disgyblion yn parhau i ddatblygu'u gwaith celfyddyd a dylunio. Yn dibynnu ar yr amser sydd ar gael, mae'n bosibl y bydd rhaid i'r disgyblion wneud peth gwaith cartref er mwyn cwblhau'r project mewn pryd.</p> <p>Dylid atgoffa'r disgyblion faint o amser sydd ganddyn nhw ar ôl i orffen eu gwaith.</p>	<p>5 mun</p>
<p>Gwahaniaethu: Dylai'r disgyblion weithio yn ôl eu gallu eu hunain yn ystod y wers hon, ond dylid cynnig help ychwanegol i'r disgyblion llai abl a allai ganfod y broses greadigol yn anodd.</p>	
<p>Asesu: Dylai'r disgyblion fod wedi canfod nodweddion yn eu proses greu a gallu dweud beth maen nhw'n ei feddwl ac yn ei deimlo amdanyn nhw. Dylen nhw allu cofnodi manylion am ddulliau artistiaid gwahanol er mwyn llywio eu gwaith eu hunain. Lle bo hynny'n bosibl, dylai eu gwaith ddangos dealltwriaeth o faint cymharol, pellter, siâp ac adeiledd.</p>	
<p>Adnoddau: Enghreifftiau o dirweddau ar PowerPoint, papur A3/A4 paper ar gyfer y broses gynllunio</p>	
<p>Cysylltiadau â llythrennedd/rhifedd: Llythrennedd – gellir cysylltu'r wers hon â llythrennedd yn y ffyrdd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Gofynnir i'r disgyblion siarad yn eglur gan ddefnyddio iaith briodol</i> • <i>Casglu a threfnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol</i> • <i>Ehangu ar syniadau gyda rhesymau cefnogol</i> • <i>Gwneud mwy o waith ymchwil ar y syniadau cychwynnol sydd o ddiddordeb iddyn nhw</i> <p>Rhifedd – gellir cysylltu'r wers hon â rhifedd yn y ffyrdd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • <i>Amseru digwyddiadau a threfnu canlyniadau.</i> <p>Cysylltiadau eraill â'r cwricwlwm: Cysylltiadau trawsgwricwlaidd â TGCh trwy ddefnyddio delweddau digidol i helpu i greu eu dehongliad, a hefyd â Dylunio a Thechnoleg trwy weithio gydag unrhyw gyfarpar i greu eu gwaith</p>	